
Rhaglen tystiolaeth marchnad lafur

# CYNGHORION DA ar gyfer ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio rhaglen

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau yma?

- **Gwneuthurwyr penderfyniadau**
- **Staff polisi**
- **Staff cyflenwi**



## Pryd ddylwn i ddefnyddio'r canllawiau yma?

**Cam dylunio a chyflenwi parhaus.**

*Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn dylunio rhaglenni a gweithgareddau yn ychwanegu gwerth drwy wella dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr a chyd-destun. Gall gefnogi cynrychioli ystod eang o nodweddion a sicrhau fod dulliau yn effeithlon mewn gwledydd ac ardaloedd datganoledig.*

*Fodd bynnag, gall ymgysylltu ystyrlon fod yn anodd, gan fod cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu yn aml yn mynnu llawer o amser gan unigolion. Gall ymgysylltu hefyd fod yn her yn dibynnu ar faint a cham y rhaglen a'r hyn sy'n ymarferol o fewn cyllidebau sydd ar gael.*

Dengys tystiolaeth o No One Left Behind (NOLB) Fife a Step Forward Tees Valley sut y gall gwahanol agweddau at ymgyfraniad wella dylunio a darpariaeth rhaglenni.

## CYNGOR DA: Ystyried os y bydd cyd-ddylunio yn cael effaith amlwg ar ddylunio a darpariaeth gwasanaeth.

**Pan mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhoi eu hamser a'u gwybodaeth, dylai eu mewnbwn fod yn ystyrlon ac arwain at wella gwasanaeth.** Mae cyd-ddylunio yn fwyaf effeithlon pan mae'r model gwasanaeth yn ddigon hyblyg i weithredu ar adborth gan sicrhau fod cyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth yn dylanwadu yn uniongyrchol ar sut y caiff gwasanaethau eu llunio a'u cyflenwi.

Rhoddodd model contractio NOLB Fife hyblygrwydd i ddarparwyr sector gwirfoddol yn eu dull o ddarparu cymorth i ateb anghenion cymhleth cleientiaid. Gallai darparwyr hefyd addasu darpariaeth mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth, gan roi ymyriadau pwrpasol a holistig.

## CYNGOR DA: Ystyried os bydd cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu yn briodol, ystyrlon a chymesur.

Efallai na fydd yn bosibl cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ar bob cam o ddylunio, gan fod hyn yn dibynnu ar faint, natur, amseriad ac adnoddau y rhaglen. **Dylai rhaglenni effeithlon ganolbwyntio ymgyfraniad ar lle bydd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf a dod ynghyd â barn gwahanol nodweddion a gwledydd ac ardaloedd datganoledig, fel nad yw yn docenistaidd.**

Gall defnyddwyr wasanaeth gymryd rhan mewn:

- **Comisiynu a dylunio:** Roedd NOLB Fife yn cynnwys pobl gyda phrofiad bywyd o wasanaethau diweithdra mewn comisiynu. Cymerodd defnyddwyr gwasanaeth ran ar draws y panel dethol, y broses gynnig a dylunio a chyflenwi gwasanaeth.
- **Allgymorth rhaglen ac ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth:** Fe wnaeth Step Forward Tees Valley greu chwe rôl Llysgennad cyflenwi yn cefnogi marchnata, cysylltu â darpar gyfranogwyr mewn digwyddiadau, cynorthwyo staff cyflenwi a helpu gyda gwerthuso drwy ymgysylltu â chyfranogwyr.
- **Gwerthuso ac adborth parhaus:** Mae adborth rheolaidd yn cefnogi gwella gwasanaeth. Mae gweithgareddau gwerthuso yn rhoi ffordd i ddefnyddwyr i rannu eu profiadau a'u dewisiadau a llunio'r broses.



ies institute for employment studies
L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
Department for Work & Pensions

## CYNGOR DA: Ystyried sut y gellir dileu rhwystrau i ymgysylltu â'r gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.



Efallai bod yr amser sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer gweithgareddau cyd-ddylunio yn gyfyngedig. Gall rhai fod yn brin o hyder i wirfoddoli neu wneud cais am y rolau hyn. Mae'n hanfodol dileu'r rhwystrau hyn i sicrhau fod cyfranogiad yn gynhwysol ac ystyrlon. **Mae gwerthfawrogi eu hamser, adeiladu hyder a chydnabod eu cyfraniadau yn helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a gall wella ansawdd ymgysylltu.**

Gall rhaglenni ostwng rhwystrau a chefnogi ymgysylltu drwy:

- **Cynnig tâl:** Talu i ddefnyddwyr gwasanaeth am weithgareddau sy'n llywio dyluniad a chyflenwi rhaglen. Mae hyn yn cynnwys cyd-ddylunio, cymorth ymgysylltu a cyflenwi a gweithgareddau gwerthuso.
- **Darparu hyfforddiant:** Cynnig hyfforddiant fel y gall defnyddwyr gwasanaeth gyfrannu yn hyderus. Canfu NOLB Fife fod y broses ddethol ceisiadau yn anodd i rai pobl gyda phrofiad bywyd. Argymhellwyd mwy o gefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer tasgau technegol, fel adnabod ceisiadau cryf neu wan.
- **Cynnig cydnabyddiaeth rôl:** Fe wnaeth Llysgenhadon Step Forward Tees Valley adeiladu sgiliau a hyder drwy'r rôl a symudodd rhai i swyddi newydd. Gall ardystiad, sgiliau a ddiffiniwyd yn glir ar gyfer CVs a thystlythyrau gefnogi mynediad i waith.




## CYNGOR DA: Creu amgylcheddau cyfranogi diogel a chynhwysol.

Gall defnyddwyr gwasanaeth sy'n ymwneud â chyd-ddylunio wynebu lefelau uchel o anfantais, bod ag anghenion cymorth cymhleth neu deimlo'n betrus oherwydd profiadau negyddol blaenorol. **Mae creu amgylchedd diogel a chynhwysol yn helpu pobl i deimlo'n gysurus i roi eu barn, gan sicrhau y caiff ystod ehangach o safbwyntiau eu clywed a gwella ansawdd a pherthnasedd dylunio rhaglen.**

Gall rhaglenni gefnogi cyfranogiad mewn cyd-ddylunio drwy:

- Weithio gyda cyrff perthnasol lleol a trydydd sector i sicrhau eu bod yn cynnwys ystod eang o gyfranogwyr ac nad ydynt yn eithrio unrhyw grwpiau perthnasol.
- Recriwtio cyfranogwyr o wahanol gefndiroedd, galluoedd, oedrannau, diwylliannau a phrofiad bywyd.
- Cynllunio gweithgareddau cyd-ddylunio i fod yn hygyrch yn seiliedig ar rwystrau diwylliannol, corfforol, iaith neu wybyddol.
- Cynnig trafodaethau a hwylusir gan weithwyr proffesiynol niwtral i ddileu hierarchaeth a sicrhau y caiff pob llais ei glywed.

Mae'r cynghorion da yma eu seiliedig ar dystiolaeth gwerthuso a ddynodwyd drwy Asesiad Cyflym o Dystiolaeth ar yr hyn sy'n galluogi dylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni gwaith ac iechyd lleol yn effeithlon.

Rhoddwyd graddiad hyder o dangosol – canolig i'r cynghorion da yn y canllawiau yma. Mae hyn yn golygu y seiliwyd y cynghorion da hyn ar dystiolaeth awgrymol ac na fedrir eu cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau. Mae hefyd yn golygu y cafwyd tystiolaeth o leiaf un astudiaeth gyda graddiad canolig yn defnyddio dull Asesu Ansawdd Tystiolaeth Cronfa Gwaddol Ieuenctid.

ies institute for employment studies
L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
Department for Work & Pensions